

Gwasanaeth Tân ac Achub  
De Cymru



South Wales  
Fire and Rescue Service

# BYDDWCH MWY



AR-ALWAD  
ON-CALL

CWESTIYNAU A HOLIR YN AML  
YMLADDWYR TÂN

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

Cynlluniwyd y llyfryn hwn yw ateb y cwestiynau a holir ynghylch dod yn Ymladdwr Tân Ar Alwad gyda Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC). Rydym yn ymrwymedig i recriwtio'r bobl orau i weithio â ni a chefnogi ein cymunedau.

## OES RHAID I MI FYW YN YMYL GORSAF DÂN?

Mae'n ofynnol i chi allu ymateb i'ch gorsaf Ar-Alwad o fewn amser penodol boddhaol o'ch cyfeiriad cartref neu'ch cyfeiriad gwaith gan ddefnyddio cyflymdra ffyrdd cyffredin. Cynhelir rhediadau wedi'u hamseru i sicrhau hyn. Os ydych chi'n ymateb ar droed neu ar feic, cynhelir rhediadau wedi'u hamseru hefyd.

## OS YDW I'N YMATEB O'R GWAITH BETH SYDD ANGEN I MI EI WNEUD?

Rhaid i ni gael caniatâd eich cyflogwr. Cynhelir rhediadau wedi'u hamseru hefyd.

## PA GYMWYSTERAU SYDD EU HANGEN ARNAF?

Nid oes angen cymwysterau ffurfiol ar gyfer rôl Ymladdwr Tân. Fodd bynnag, mae'n ddymunol i fod wedi cyflawni Sgiliau Llythrennedd a Rhifedd i Lefel 2 Sgiliau Hanfodol (Lefel 2 Sgiliau Allweddol) neu TGAU hyd raddfa C neu uwch.

Mae'n bwysig nodi y caiff eich lefelau rhifedd a llythrennedd eu profi o fewn Profion Ymdrin â Gwybodaeth a ddefnyddir fel rhan o'r Broses Ddethol.

## OES RHAID I MI FOD YN DDINESYDD PRYDEINIG?

Mae modd i chi fod o unrhyw Genedligrwydd i ymgeisio, ond bod gennych hawl parhaol i barhau heb rwystr yn y DU. Mae dinasyddion yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) a'r Swistir yn gymwys i ymgeisio yn awtomatig. Gofynnir am brawf hunaniaeth.

## BETH OS OES GENNYF **GOLLFARNAU** TROSEDDOL?

Mae'n rhaid datgan unrhyw gollfarnau sydd heb ddarhod ar eich Ffurflen Gais – a fydddech cystal â nodi na fyddai cael collfarnau na rhybuddio yn eich atal rhag cael eich ystyried.

O dan 'Ddeddf Adsefydlu Troseddwy'r 1974', does dim angen i chi ddatgan troseddau sydd heb ddarhod. Os nad ydych yn siŵr os ydy'ch collfarnau wedi 'darhod', a fydddech cystal â chyfeirio at wefan Gwasanaeth Datgelu Nacro [www.nacro.org.uk](http://www.nacro.org.uk) lle medrwyd ganfod rhestr gyflawn o'r prif ddeddfrydau a'r gorchmynion a'u cyfnodau adsefydlu.

## A OES **TERFYN O RAN OEDRAN?**

Rhaid i ymgeiswyr fod o leiaf 17 a 6 mis oed ar ddyddiad y cais ac o leiaf 18 oed ar ddiwrnod cyntaf y Cwrs Hyfforddi Ymladdwyr Tân i fod yn gymwys.

Nid oes terfyn uchafswm oedran.

## A OES UNRHYW **GYFYNGIADAU O RAN TALDRA?**

Nid oes cyfyngiadau taldra.

## PA FATH O **ORIAU** FYDDA I'N **GWEITHIO?**

Ar hyn o bryd mae saith cytundeb Ar-Alwad ar gael, er mai 42 awr yr wythnos a gynigir i gychwyn.

## BETH YW'R **CYFLOG?**

Am wybodaeth fanwl ynghylch cyflogau, cyfeiriwch at 'Yr Ymladdwr Tân Ar-Alwad – Llyfryn Gwybodaeth sydd ar gael ar ein gwefan [www.decymru-tan.gov.uk](http://www.decymru-tan.gov.uk).

## YDY HI'N IAWN I GAEL **TATŴ** NEU **DYLLU'R CORFF?**

Mae'n ofynnol i chi gyfleu delwedd y Gwasanaeth mewn perthynas â gwisg, steil gwallt, gwallt wynebol, ewinedd, gemwaith, tyllu'r corff, colur a chelf corff.

Er lles lechyd a Diogelwch rhaid tynnu pob twll cosmetig cyn cychwyn dyletswydd weithredol.

Gweithdrefn y Gwasanaethau yw bod pobl sydd â chelf corff sy'n weledol uwchlaw'r coler, yn is na llewys y crys neu rai a ystyrir yn aflan neu'n ymosodol mewn unrhyw ffordd yn annerbyniol oni cytunir i'w gorchuddio ar eich cost eich hun.

## SAWL **SWYDD** SYDD?

Bydd nifer y swyddi gwag sydd ar gael yn dibynnu ar amryw o ffactorau megis gorsafoedd, graddfeydd ymddeoliad ac anghenion sefydliadol.

## OS BYDDAF YN **LLWYDDIANNUS**, PRYD BYDDAF YN **CYCHWYN?**

Gobeithio bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael cynnig lle ar y cwrs hyfforddiant cychwynnol 2 wythnos i Ymladdwyr Tân Ar Alwad nesaf sydd ar gael, er mewn rhai achosion rhoddir yr ymgeiswyr ar restr. Pan fydd swyddi gwag yn codi, cynigir llefydd i ymgeiswyr ar y cwrs hyfforddi 2 wythnos nesaf.



## SUT BYDDAF YN CAEL FY ASESU?

Mae'r Broses Ddethol yn cynnwys nifer o gamau a bydd rhaid i'r ymgeiswyr fod yn llwyddiannus ym mhob cam unigol cyn cael eu gwahodd i symud i'r cam nesaf.

Y camau yw:-

### Cam Ffurflen Gais

Gofynnir i ymgeiswyr gwblhau ffurflen gais yn llwyr.

### Cyfweliad Addasrwydd

Nod y cyfweliad yw trafod y disgwyliadau, yr ymrwymiad a'r cytundebau.

### Asesiad Gallu

Bydd yr ymgeiswyr yn sefyll asesiad sy'n cynnwys Rhifedd, Llythrennedd a Datrys Problemau.

### Cyfweliad Swydd

Cynlluniwyd y cyfweliad yw asesu ymagwedd bositif yr ymgeisydd at fywyd ac at waith.

### Asesiad Corfforol ac Ymarferol

Bydd ymgeiswyr yn ymgymryd â chyfres o brofion a gynllunnir i asesu eu bod yn medru cyflawni anghenion corfforol rôl Ymladdwyr Tân.

### Tystlythyrau

Gofynnir am dystlythyrau cyflogwr a thystlythyrau cymeriad sy'n ymestyn dros 3 blynedd (Gofyniad y Llywodraeth).

### Asesiad Meddygol

Cynllunnir yr asesiad i brofi eich bod yn feddygol ffit i allu ymgymryd â dyletswyddau Ymladdwr Tân heb roi eich hun ac eraill mewn perygl. Cynhelir profion golwg a phroffion canfod lliw yn ogystal â phrawf cyffuriau ac alcohol.

Os hoffech chi gael mwy o wybodaeth ynghylch unrhyw un o'r camau hyn cyfeirwch at ein hamrediad o Lyfrynnau Gwybodaeth Ymladdwr Tân Ar- Alwad ar ein gwefan [www.decymru-tan.gov.uk](http://www.decymru-tan.gov.uk).

## OS BYDDAF YN **AFLWYDDIANNUS** MEWN UNRHYW UN O'R **CAMAU**, GAF I **AIL-SEFYLL**?

Mae'n **rhaidd** i chi fod yn llwyddiannus ym mhob cam o'r broses proses ddethol i symud ymlaen i'r cam nesaf.

**Efallai** cewch gyfle i ail-sefyll elfennau o'r broses ddethol megis yr Asesiad Corfforol ac Ymarferol, yr Asesiad Gallu a'r/neu'r Cyfweiliad Swydd.

## BETH OS **NA ALLAF** FYNYCHU DYDDIAD YR **ASESIAD**?

Os byddwch yn ein hysbysu na fyddwch yn medru mynychu ar ddiwrnod penodol o flaen llaw, byddwn yn ymdrechu i'ch diwallu.

## BETH OS OES GENNYF **BROBLEM FEDDYGOL**?

Gall penderfyniadau sy'n gysylltiedig â ph'un ai gall eich problem feddygol eich rhwystro rhag dod yn Ymladdwr Tân ai peidio ond cael eu gwneud yn dilyn asesiad manwl ac unigol gan ein Tîm Iechyd Galwedigaethol.

Os oes gennych gyflwr ar hyn o bryd, neu os bu gennych gyflwr meddygol a all achosi problemau, dylai'r canllawiau cyffredinol canlynol eich helpu i ystyried eich addasrwydd meddygol cyn ymgeisio. Bydd unrhyw gyflwr meddygol all gynyddu'n sylweddol y perygl o'r canlynol fod yn annerbyniol:

- Llewyg sydyn neu analluogi sydyn
- Doethineb amharedig
- Ymwybyddiaeth newidiedig
- Afiechyd/niwed corfforol neu feddyliol sylweddol
- Unrhyw effaith arall a allai achosi risg iechyd a diogelwch sylweddol i'ch hun ac i eraill



## BETH OS OES GENNYF **DDYSLECSIA**?

Os oes gennych ddyslecsia, neu'n amau bod gennych ddyslecsia, mae modd i ni osod mesurau priodol ar waith i'ch cefnogi ar hyd y broses ddethol. Bydd angen i chi gydnabod hwn ar y Ffurflen Gais a phe cewch eich rhoi ar restr fer yr asesiad gallu, gofynnir i chi gyflwyno Adroddiad Asesu gan berson proffesiynol meddygol neu addysgol sy'n briodol cymwys. Bydd yr Adroddiad Asesu hwn yn ein cynorthwyo i adnabod sut y medrwn eich cynnal orau, nid yn unig yn ystod y cam dethol ond o bosib drwy gydol eich gyrfa gyda'r Gwasanaeth Tân.

## DWI'N GWISGO **SBECTOL** - OES MODD I MI **YMGEISIO**?

Mae'n ofynnol i chi gyrraedd lleiafswm safon gwelediad heb ei gywiro (yn ddigymorth) o 6/9 ym mhob llygad er mwyn cael eich ystyried.

## DWI'N CREDU FY MOD I'N DIODDEF O **LIWDDALLINEB** - YDY HYN YN BROBLEM?

Mae unigolion sydd â golwg lliw arferol neu olwg lliw ychydig yn anarferol yn addas ar gyfer cael eu penodi i'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Cewch eich profi i sicrhau eich bod yn cwrdd â'r gofynion hyn drwy ddefnyddio Prawf Ishihara (uchafswm o ddau wall yn dderbyniol).

## CEFAIS DRINIAETH **LASER** I'R LLYGAID - OES MODD I MI **YMGEISIO** O HYD?

Nid oes modd i chi ymgeisio i fod yn Ymladdwr Tân tan flwyddyn ar ôl dyddiad eich triniaeth. Yn ystod y cam hwn, profir eich golwg yn y modd arferol i sicrhau bod eich golwg yn cwrdd â'r gofynion cymwys sef 6/9 ym mhob llygad.

## BETH YW'R SAFON **PRAWF BLIP**?

Rydym yn defnyddio'r Prawf Blip i fesur eich ffitrwydd. Rydym yn chwilio am ymgeiswyr sy wedi cyrraedd lefel 8.8

## BETH OS OES GENNYF **ASTHMA**?

Nid yw asthma o reidrwydd yn eich atal rhag dod yn Ymladdwr Tân. Asesir eich cyflwr yn y cam meddygol gan ein tîm meddygol lechyd Galwedigaethol, ac wedi hyn gwneir penderfyniad ynghylch eich addasrwydd ar gyfer rôl Ymladdwr Tân.

## OES **ANGEN** BOD YN **FFIT** I YMGEISIO?

Bydd angen i fod chi fod yn ffit a chynnal eich lefelau ffitrwydd ar hyd eich gyrfa fel Ymladdwr Tân. Mae hyn yn cynnwys cynnal pwysau iach.

## LLE CAF **GANFOD FWY** O WYBODAETH WRTH **BARATOI** AR GYFER Y PRAWF **FFITRWDYDD**?

Mae manylion yr Aseidiadau Corfforol ac Ymarferol ar gael yn y Llyfryn Asesu Corfforol ac Ymarferol sydd ar gael i'w lawr lwytho o wefan Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru [www.decymru-tan.gov.uk](http://www.decymru-tan.gov.uk)

Mae 'Rhaglen Ffitrwydd Paratoadol' hefyd ar gael i chi lawr lwytho i'ch cynorthwyo â'ch paratoadau ar gyfer y profion a'ch gyrfa fel Ymladdwr Tân.

## LLE GAF I **FFURFLEN GAIS**?

Ymwelwch â'n gwefan: [www.decymru-tan.gov.uk](http://www.decymru-tan.gov.uk) a chwblhewch y ffurflen gais berthnasol yn llwyr.



**Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru**

Tîm Recriwtio ac Asesu  
Pencadlys y Gwasanaeth Tân  
Parc Busnes Forest View  
Llantrisant  
CF72 8LX

Llinell Recriwtio - 01443 232200  
personél@decymru-tan.gov.uk



@SWFRS\_Careers



Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

[www.decymru-tan.gov.uk](http://www.decymru-tan.gov.uk)